



monmouthshire sir fynwy

Adroddiad Monitro Blynyddol

Safonau'r Iaith Gymraeg

Cyngor Sir Fynwy

1af Ebrill 2025 - 31ain Mawrth 2026



Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Fynwy ar Safonau'r iaith Gymraeg. Ei bwrpas yw gwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r ffyrdd yr ydym wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad oedd yr iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y flwyddyn. Fe'i cynhyrchwyd yn unol ag Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, er mwyn bodloni gofynion Safonau 158, 164 a 170.

Gwybodaeth Bellach

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Sir Fynwy: www.monmouthshire.gov.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Nia Roberts

Swyddog Iaith Gymraeg

Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA

Ffôn: 01633 644010

E-bost: niaroberts@monmouthshire.gov.uk

Pennie Walker

Rheolwr Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA

Ffôn: 01633 644413

E-bost: penniewalker@monmouthshire.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg - ni fydd cysylltu â ni yn y Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

Dogfennau Cysylltiedig

[Strategaeth Iaith 5 Mlynedd Cyngor Sir Fynwy 2022-2027](#)

Yr aelod cabinet â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg yn ystod 2025/26 oedd y Cynghorydd Angela Sandles.

Cynnwys

1. Cefndir	Tudalen 4
2. Cydymffurfiaeth	Tudalen 5-14
• Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Tudalen 5-9
• Safonau Llundio Polisi	Tudalen 10
• Safonau Gweithredol	Tudalen 11-14
3. Cwynion	Tudalen 15
4. Sgiliau Iaith Gymraeg	Tudalen 16-17
5. Cyrsiau Iaith Gymraeg	Tudalen 18-19
6. Recriwtio	Tudalen 20-21
7. Gwasanaethau Cwsmeriaid	Tudalen 22
8. Hyrwyddo	Tudalen 23-24
9. Casgliad	Tudalen 25-27
10. Adroddiad Strategaeth Iaith Gymraeg	Tudalen 28-41

1. Cefndir

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o'n hunaniaeth ddiwylliannol, ein treftadaeth a'n cydlyniant cymunedol. Drwy gydol y flwyddyn 2025/2026, mae'r Cyngor wedi bod yn ymroddedig i feithrin amgylchedd lle gall yr iaith Gymraeg ffynnu, a lle gall siaradwyr Gymraeg ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Sefydlodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol a osododd ddyletswydd ar Gyngor Sir Fynwy, ochr yn ochr â sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Safonau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Prif egwyddorion y Safonau hyn yw bod:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- dylem hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith

Yn 2015, derbyniodd Cyngor Sir Fynwy hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Safonau y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw. At ei gilydd, mae 176 o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Gyngor Sir Fynwy. Mae'r Safonau hyn wedi'u grwpio i 5 categori, sef:

- Cyflwyno Gwasanaethau
- Llunio Polisiâu
- Gweithredol
- Hyrwyddo
- Cadw Cofnodion

Mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- Cynhyrchu a chyhoeddi ar ein gwefan strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith yn ehangach yn ein hardal. (Safonau 145, 146)
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â sut rydym wedi cydymffurfio â'r Safonau ac wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. (Safonau 158, 164, 170)

Mae [Hysbysiad Cydymffurfiaeth](#) y Cyngor i'w weld ar ein gwefan ddwyieithog.

2. Cydymffurfiaeth

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2025/2026	Camau i'w Cymryd yn ystod 2026/2027
Safonau 1 - 7 Gohebiaeth a anfonwyd a dderbyniwyd.	Atgoffir staff o ofynion y Gymraeg yn ein gohebiaeth.	Monitro cydymffurfiaeth ar draws yr awdurdod.
Safonau 8 - 22 Galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd	Mae galwadau ffôn a wneir i'r Cyngor yn y Gymraeg yn cael eu trin gan staff sy'n siarad Cymraeg yn y Ganolfan Gyswllt.	- Sicrhau bod natur galwadau i'r Cyngor, gan gynnwys yr adrannau dan sylw, yn cael ei gofnodi â llaw gan staff y Ganolfan Gyswllt. - Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r prosesau wrth dderbyn galwadau ffôn yn y Gymraeg.
Safonau 24 – 36 Cyfarfodydd â'r Cyhoedd	Mae cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu mewn cyfarfodydd cyhoeddus lle bo angen.	Monitro i sicrhau bod y cynnig o gyfieithu ar y pryd yn parhau i gael ei wneud yn weithredol ac yn gyson.
Safonau 37 - 51, 69 - 70 Dogfennau dwyieithog eraill	- Cyhoeddwyd nodyn yn atgoffa staff o'r angen i ddatgan bod dogfennau hefyd ar gael yn y Gymraeg. - Monitro cydymffurfiaeth drwy wiriadau gwefan a cheisiadau cyfieithu a wneir drwy'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg. - Mae pob ffurflen ar gyfer defnydd y cyhoedd yn cael ei chreu'n ddwyieithog. - Mae pob hysbysiad swyddogol yn cael ei gynhyrchu a'i arddangos yn ddwyieithog.	- Defnyddio 'Awgrym Cymraeg' o fewn Cylchlythyr Staff Compass i atgoffa staff o'r gofynion. - Parhau i fonitro cydymffurfiaeth yn agos.
Safonau 52 – 60 Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol, Apiau, a	Mae gwefannau a chyfrifon cyfryngau	Parhau i fonitro a chofnodi cydymffurfiaeth.

Pheiriannau Hunanwasanaeth.	cymdeithasol yn cael eu monitro'n agos i sicrhau cydymffurfiaeth gan y Swyddog Gwefan a'r Swyddog Iaith. • Mae'r Swyddog Iaith wedi datblygu hyfforddiant ar ofynion Safonau'r Iaith Gymraeg sy'n ymwneud â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol. • Dyma nifer yr ymweliadau â thudalennau Cymraeg a Saesneg: Ailgylchu a Gwastraff: Saesneg: 125,192 Cymraeg: 186 Y Dreth Gyngor: Saesneg: 42,720 Cymraeg: 62 Blynyddoedd Cynnar, Gofal, Plant ac Addysg Ysgolion: Saesneg: 2,414 Cymraeg: 52 Addysg Cyfrwng Cymraeg: Saesneg: 479 Cymraeg: 33 Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd: Saesneg: 26,021 Cymraeg: 214 Costau Byw: Saesneg: 2,620	• Dosbarthu hyfforddiant gorfodol i awduron gwefannau ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar draws llwyfannau digidol. • Creu cofnod o unrhyw broblemau a nodwyd ac unrhyw gamau a gymerwyd i'w datrys.
---	---	--

	Cymraeg: 74	
Safonau 61 – 63 Arwyddion	• Mae pob arwydd stryd newydd naill ai'n ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg. Dewisir enwau'n ofalus i adlewyrchu hanes a threftadaeth yr ardal. Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Enwi Strydoedd i helpu gyda'r broses hon. • Er mwyn sicrhau cyfieithiadau cywir, anfonir pob cyfieithiad enwau strydoedd at gyfieithydd unigol sy'n wybodus ac yn brofiadol mewn cyfieithu enwau strydoedd. • Mae enghreifftiau o'r enwau strydoedd newydd Cymraeg yn unig a gyflwynwyd eleni yn cynnwys 'Cwrt Cip y Cadno' a 'Gwêl y Wennol'. • Mae'r Swyddog Enwi Strydoedd wedi cynhyrchu taflenni gwybodaeth i drigolion sydd yn byw ar strydoedd ag enwau newydd Cymraeg yn unig, gan egluro pam y dewiswyd yr enwau, sut maen nhw'n cael eu hynganu, a'u harwyddocâd.	• Swyddog yr Iaith Gymraeg i barhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Enwi Strydoedd ar enwi strydoedd newydd. • Cyhoeddi tudalennau gwe ar yr iaith Gymraeg ac enwi strydoedd.

	Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd gan y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd, y Swyddog Iaith Gymraeg a'r tîm GIS i ddatblygu tudalennau gwe sy'n darparu gwybodaeth am enwau strydoedd Cymraeg, gan gynnwys canllawiau ynganu.	
Safonau 64 – 68 Gwasanaethau'r Dderbynfa	- Caiff derbynfeydd ar draws yr awdurdod eu monitro i sicrhau bod posteri 'Cymraeg' yn cael eu harddangos sy'n dangos y gellir defnyddio'r Gymraeg. - Sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hasesu yn ystod cyfweiliadau ar gyfer swyddi derbynfa. - Cynhaliodd y Tîm Archwilio Mewnol adolygiad o gydymffurfiaeth derbynfeydd â'r iaith Gymraeg. Tynnodd y canfyddiadau sylw at anghysondebau mewn sgiliau iaith Gymraeg ar draws gwasanaethau'r derbynfa, gan nad oedd y gwasanaeth iaith Gymraeg llawn ar gael bob amser.	- Datblygu hyfforddiant iaith Gymraeg wedi'i dargedu ar gyfer staff y dderbynfa i wella sgiliau presennol a meithrin hyder wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog. - Cydweithio â rheolwyr gwasanaethau'r dderbynfa i sefydlu cynlluniau clir ar gyfer bodloni'r galw cyhoeddus am wasanaethau derbynfa yn y Gymraeg. - Sicrhau bod pob swydd newydd ar gyfer y dderbynfa yn cael ei hysbysebu fel un lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol er mwyn cefnogi darpariaeth gwasanaeth gyson. - Parhau i fonitro gwasanaethau'r dderbynfa ar draws yr awdurdod.
Safonau 71 – 75 Dyfarnu Grantiau	Mae gan y Cyngor bolisi ar gyfer 'Dyfarnu Grantiau a'r Iaith Gymraeg'.	Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.
Safonau 76 – 80 Dyfarnu Contractau	Mae gan y Cyngor restr wirio Gofynion Iaith Gymraeg -	Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.

	Caffael.	
Safonau 81 – 82 Hyrwyddo Gwasanaethau Iaith Gymraeg	• Caiff gwasanaethau iaith Gymraeg eu hyrwyddo'n weithredol ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. • Crëir deunydd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer dyddiadau pwysig yng nghalendr y Gymraeg i hyrwyddo'r iaith.	• Monitro cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn parhau i gael eu hyrwyddo'n weithredol. • Trefnu hyrwyddiadau ar gyfer digwyddiadau / dyddiadau allweddol.
Safon 83 Hunaniaeth Gorfforaethol	• Rhoddir cyfeiriad e-bost dwyieithog i bob aelod o staff. • Sicrhau bod pob agwedd ar hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog ac nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.	• Sicrhau bod cyfeiriadau e-bost dwyieithog yn cael eu defnyddio ar draws ein gwefan, dogfennau a ffurflenni.
Safonau 84 a 86 Cyrsiau Addysgol	• Caiff cyrsiau addysgol eu hasesu i benderfynu a oes angen eu cyflwyno yn y Gymraeg.	• Parhau i asesu a monitro'r angen i gyflwyno cyrsiau addysgol yn y Gymraeg.
Safon 87 Systemau - Anerchiadau Cyhoeddus	• Mae pob system cyfeiriad cyhoeddus yn ddwyieithog. • Monitro cydymffurfiaeth drwy ymweliadau.	• Atgoffa staff o'r gofynion. • Monitro cydymffurfiaeth.

Safonau Llundio Polisi

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2025/2026	Camau i'w Cymerwyd yn ystod 2026/2027
Safonau 88 - 93 Llundio Polisiâu	• Mae hyfforddiant ar Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gael i staff drwy Adran Gwasanaethau Democrataidd yr Hwb. • Cynhelir asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi. • Cyfarfodydd sicrhau ansawdd ar gyfer Asesiadau Effaith a rhoddir adborth i awduron adroddiadau - Tîm Polisi. • Adolygwyd a diweddarwyd templed a chanllawiau Asesiad o'r Effaith Integredig. • Lansiwyd fideos fel rhan o Lwybr y Rheolwyr ar Thinqi, gan roi canllawiau i Swyddogion ar sut i gwblhau'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg.	• Cyfarfodydd sicrhau ansawdd i barhau a monitro effeithiolrwydd ar ganlyniadau. • Monitro cydymffurfiaeth â Safonau a rhoi hyfforddiant pellach i staff lle nodir problemau.

Safonau Gweithredol

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2025/2026	Camau i'w Cymerwyd yn ystod 2026/2027
Safonau 99 – 104 Dogfennau Cyflogaeth	Atgoffir staff yn rheolaidd o'u hawl i dderbyn dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth yn y Gymraeg drwy ddiweddariadau a rennir yn Sianel Teams Cymraeg.	Parhau i atgoffa staff yn rheolaidd am eu hawl i dderbyn dogfennau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y Gymraeg.
Safonau 105 – 111 Polisiâu Adnoddau Dynol	- Mae pob polisi a dogfen ganllaw AD yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a'u gwneud ar gael yn y Gymraeg. Mae nifer fach o bolisiâu yn parhau i gael eu hadolygu a disgwylir iddynt fod ar gael yn ddwyieithog erbyn mis Hydref 2026. - Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu fersiwn Gymraeg o gyfeiriadur PageTiger a fydd ar gael drwy'r Hwb staff, gyda mynediad ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy god QR, gan alluogi staff i weld dogfennau ar unrhyw ddyfais.	Sicrhau bod fersiynau dwyieithog o bolisiâu AD ar gael i staff.
Safonau 112 – 119 Gweithdrefnau Cwynion a Disgyblu	Mae staff yn cael gwybod am eu hawl i gwblhau'r broses gwyno / disgyblu yn y Gymraeg.	Parhau i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal. Defnyddio Sianel Teams Cymraeg i sicrhau bod nodyn atgoffa yn cael eu hanfon at staff.
Safonau 120 – 126 Mewnwyd Staff ac Adnoddau TG	- Mae Cysgliad ar gael ar bob cyfrifiadur, gan ddarparu gwiriad sillafu a gramadeg Cymraeg, yn ogystal â geiriadur Saesneg - Cymraeg. - Darperir Meddalwedd To Bach ar bob cyfrifiadur i gynorthwyo staff i deipio'n haws yn y Gymraeg. Darperir canllawiau ar sut i ddefnyddio Cysgliad / To	- Parhau i gynnal cefnogaeth i staff ar ddefnyddio 'Cysgliad' - Cydweithio â swyddog yr Hwb i wella cynllun a defnyddioldeb yr adran iaith Gymraeg ar fewnwyd y staff, ac ehangu'r ystod o ddogfennau cymorth sydd ar gael i gynorthwyo staff yn well i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu rolau

	Bach ar Sianel Teams Cymraeg. Mae tudalen bwrpasol ar gyfer y Gymraeg ar gael ar fewnrwyd y staff, yn cynnig dogfennau allweddol a chymorth.	
Safon 127 - Sgiliau Iaith Staff.	- Cesglir gwybodaeth am sgiliau iaith staff yn ystod y broses ymgeisio am swyddi newydd. - Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn derbyn gwybodaeth gan Adnoddau Dynol am staff newydd ac sydd wedi gadael a'u sgiliau iaith Gymraeg cofnodedig. Diweddarir y rhestr o siaradwyr Cymraeg yn rheolaidd.	Cynnal archwiliad sgiliau iaith Gymraeg ar draws yr awdurdod i sicrhau bod data staff yn gywir ac yn gyfredol.
Safonau 128 – 133 Hyfforddiant Staff.	- Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg, ochr yn ochr â'r Rheolwr Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i staff newydd fel rhan o'r rhaglen sefydlu gorfforaethol. Cyflwynir hyn mewn dwy ran: fideo sy'n ymdrin â Safonau'r Iaith Gymraeg a negeseuon ymwybyddiaeth allweddol, y gall staff eu haledrych arnynt ar unrhyw adeg, ac yna sesiwn wyneb yn wyneb i gael rhagor o arweiniad a chwestiynau. - Mae'r sesiwn anwytho yn ymdrin â hanes a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg, cyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Safonau, a'r rôl y mae gweithwyr yn ei chwarae wrth gefnogi a hyrwyddo'r iaith. Cyfeirir staff hefyd at adnoddau	- Bydd tîm y Gymraeg yn parhau i gymryd rhan yn y broses anwytho gorfforaethol. - Parhau i hyrwyddo a hysbysebu cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg i staff. - Lansio hyfforddiant i Swyddogion a Chynghorwyr ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. - Parhau i hyrwyddo hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i staff er mwyn cynyddu cyfraddau cyfranogiad a chwblhau i'r eithaf.

	cymorth, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac offer ymarferol i gefnogi ei defnydd yn y gweithle. • Mae cyrsiau iaith Gymraeg ar bob lefel ar gael i bob aelod o staff. • Cwblhaodd 42 aelod o staff gwrs Cymraeg yn 25/26. • Cymerodd y Cyngor ran mewn peilot o'r ap ARFer, menter newid ymddygiad a ddatblygwyd gan Brifysgol Bangor i gefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r ap yn annog staff i gwblhau tasgau bach, ymarferol yn ystod eu diwrnod gwaith i feithrin hyder ac ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau bob dydd. Roedd yr arbrawf yn cynnwys tîm â chymysgedd o alluoedd iaith Gymraeg ac yn rhoi cyfle i staff ymarfer eu sgiliau mewn cyd-destun cefnogol, bywyd go iawn. • Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu deunyddiau adnoddau ar gyfer staff a Chynghorwyr, gan gynnwys ymadroddion Cymraeg defnyddiol ar gyfer cyfarfodydd, wedi'u hategu gan glipiau sain i gynorthwyo ynganiad. • Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ar gael i staff drwy blatfform dysgu Thingi.	
--	--	--

Safonau 134 a 135 Geiriad a Logo ar gyfer Llofnodau E-bost Staff	• Mae gan bob aelod o staff fynediad at y gwasanaeth cyfieithu i sicrhau bod eu llofnodion e-bost yn ddwyieithog. • Mae logo ‘Cymraeg Gwaith’ ar gael ar fewnwyd y staff a sianel y Timau Cymraeg i staff ei gynnwys yn eu llofnodion e-bost, gan nodi a ydynt yn siaradwyr neu’n ddysgwyr Cymraeg.	• Parhau i ddefnyddio sianel Teams Cymraeg i rannu gwybodaeth ac adnoddau gyda staff sy’n siarad Cymraeg. • Defnyddio'r adran “Awgrym Cymraeg” yn y cylchlythyr staff i atgoffa staff o'r gofyniad am lofnodion e-bost dwyieithog a rhoi canllawiau ar sut i ofyn am gyfieithiadau.
Safonau 136 - 140 Y Broses Recriwtio	• Gweler yr adran ‘Recriwtio’. • Mae'r Cyngor yn categoreiddio pob swydd wag newydd fel naill ai'r iaith Gymraeg yn hanfodol neu'r iaith Gymraeg yn ddymunol. • Mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu’n ddwyieithog; maent yn cynnwys y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ac asesiad yr iaith Gymraeg. • Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn monitro hysbysebion swyddi newydd i sicrhau cydymffurfiaeth. • Mae pob rôl sy’n cael ei hasesu fel bod yr iaith Gymraeg yn hanfodol a rhai rolau dethol lle mae'r iaith Gymraeg yn ddymunol yn cael eu hysbysebu ar wefannau recriwtio iaith Gymraeg.	• Parhau i ddefnyddio safleoedd recriwtio iaith Gymraeg. Swyddog iaith i fonitro canlyniadau'r hysbysebion hyn. • Darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer swyddi lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol i nodi pa fathau o sgiliau fydd eu hangen ar gyfer y rôl. • Creu hyfforddiant i reolwyr ar recriwtio iaith Gymraeg.
Safonau 141 – 143 Arwyddion Mewnol	• Canllawiau wedi'u darparu i staff ar gyfer arwyddion mewnol. • Arwyddion yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.	• Parhau i fonitro cydymffurfiaeth.
Safon 144 Cyhoeddiadau yn y Gweithle	• Mae pob cyhoeddiad yn cael ei recordio'n ddwyieithog.	• Monitro cydymffurfiaeth.

3. Cwynion

Cwynion gan y Cyhoedd

Catffrwd / Catbrook Signage - Yn ystod y flwyddyn adrodd, derbyniwyd cwyn gan breswilydd, ynghyd â gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg, ynghylch yr arwyddion ar gyfer pentref Catbrook, a oedd yn arddangos enw'r lle yn Saesneg yn unig. Tynnodd y gŵyn sylw at y ffaith nad oedd ffurf Gymraeg yr enw, "Catffrwd", wedi'i chynnwys.

Yn dilyn ymchwiliad, sefydlwyd bod yr arwyddion wedi'u gosod fel rhan o brosiect ar y cyd rhwng Cyngor Sir Fynwy, Tirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy, a Chynghorau Cymuned lleol. Pan osodwyd yr arwydd, nid oedd y ffurf Gymraeg "Catffrwd" wedi'i chynnwys ar Restr Enwau Lleodedd Cymraeg Safonol Comisiynydd y Gymraeg, ac felly gosodwyd yr arwyddion gan ddefnyddio'r enw Saesneg "Catbrook" yn unig.

Cadarnhaodd gohebiaeth ddilynol fod "Catffrwd" wedi'i fabwysiadu ers hynny fel y ffurf Gymraeg a argymhellir. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiwygio'r arwyddion trwy gymhwyso gorchudd dwyieithog i gynnwys yr enwau Cymraeg a Saesneg.

Cyfieithu Mewn Cyfarfodydd - Yn ystod y flwyddyn adrodd, derbyniwyd cwyn ynghylch diffyg darpariaeth iaith Gymraeg mewn cyfarfod a gynhaliwyd mewn perthynas ag Estyn. Tynnodd y gŵyn sylw at y ffaith nad oedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn ystod y cyfarfod, er gwaethaf y drafodaeth yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg a chyfraniadau rhanddeiliaid yn cael eu gwneud yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cydnabuwyd diffyg darpariaeth cyfieithu fel diffyg ac nid oedd yn adlewyrchu arfer arferol y Cyngor. Cyhoeddwyd ymateb ffurfiol yn cydnabod bod diffyg cyfieithu mewn cyfarfod mor bwysig yn annerbyniol ac nad oedd yn bodloni'r Safonau hygrychedd disgwylidig nac ymrwymiad y Cyngor i Safonau'r iaith Gymraeg.

Mewn ymateb, rhoddwyd sicrwydd y rhoddir mwy o ystyriaeth i ofynion ieithyddol cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys pwrpas y cyfarfod ac anghenion y mynychwyr, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu priodol yn cael eu darparu lle bo angen.

Mae'r gŵyn hon wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cymhwyso Safonau'r iaith Gymraeg yn gyson ym mhob gweithgaredd ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi llywio gwelliannau i brosesau cynllunio i atal problemau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg

Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

4. Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r tablau canlynol yn cyflwyno data ar staff sydd wedi cofnodi rhyw lefel o sgiliau iaith Gymraeg.

Lefelau Sgiliau Iaith Gymraeg y Staff

Lefel Sgiliau Iaith Gymraeg	Nifer y Staff (ac eithrio ysgolion)	Canran %
Rhugl	50	13.1%
Uwch	9	2.4%
Canolradd	54	14.1%
Sylfaen	34	8.9%
Dechreuwr	235	61.5%
Cyfanswm	382	-

Sgiliau Iaith Gymraeg yn ôl Cyfarwyddiaeth

Cyfarwyddiaeth	Nifer y Siaradwyr Cymraeg (ac eithrio ysgolion)	Canran %
Dysgu, Sgiliau a'r Economi	47	12.3%
Lle a Llesiant Cymunedol	105	27.5%
Y Gyfraith a Llywodraethiant	8	2.1%
Adnoddau	42	11.0%
Gofal Cymdeithasol a Diogelu	124	32.5%
Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	16	4.2%
Seilwaith	40	10.5%
Cyfanswm	382	-

Siaradwyr Cymraeg Rhugl yn ôl Cyfarwyddiaeth

Cyfarwyddiaeth	Nifer y Siaradwyr Cymraeg Rhugl (ac eithrio ysgolion)	Canran %
Dysgu, Sgiliau a'r Economi	2	4.0%
Lle a Llesiant Cymunedol	16	32.0%

Y Gyfraith a Llywodraethiant	6	12.0%
Adnoddau	6	12.0%
Gofal Cymdeithasol a Diogelu	15	30.0%
Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	4	8.0%
Seilwaith	1	2.0%
Cyfanswm	50	-

5. Cyrsiau Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cynnig ystod eang o gyrsiau iaith Gymraeg i staff ar bob lefel, gyda'r nod o gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a meithrin hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Mae cefnogi staff i ddysgu Cymraeg yn hanfodol i sicrhau y gall yr awdurdod ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg teg i drigolion a chyflawni ei rwymedigaethau o dan Safonau'r Iaith Gymraeg.

Cynhelir cyrsiau drwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg, drwy Goleg Gwent, ac fe'u hariennir gan Adran yr Iaith Gymraeg. Cefnogir staff i ymgymryd â'r dysgu hwn yn ystod oriau gwaith.

Yn 2025/2026, dyma nifer y staff a fynychodd gyrsiau iaith Gymraeg ar bob lefel:

Lefel Iaith y Cwrs	Nifer y Staff Yn Cwblhau'r Cwrs Yn 2024/2025	Nifer y Staff Yn Cwblhau'r Cwrs Yn 2025/2026
Mynediad 1	26	10
Mynediad 2	10	16
Sylfaen 1	9	4
Sylfaen 2	3	6
Canolradd 1	0	1
Canolradd 2	3	1
Uwch 1	0	2
Uwch 3	2	2
Hyfedredd	0	0
Cyfanswm	53	42

Staff sy'n cwblhau cyrsiau Cymraeg fesul Cyfarwyddiaeth 2025/2026

Cyfarwyddiaeth	Nifer y Staff	Canran %
Lle a Llesiant Cymunedol	4	9.5%
Seilwaith	5	11.9%
Adnoddau	7	16.7%
Dysgu, Sgiliau a'r Economi	13	31.0%
Gofal Cymdeithasol a Diogelu	9	21.4%
Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	3	7.1%
Y Gyfraith a Llywodraethiant	1	2.4%
Cyfanswm	42	-

Mae Safon 128 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Anwytho;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

Gofynnir i staff a hoffent dderbyn y sesiynau hyfforddi hyn yn y Gymraeg.

Rydym yn defnyddio ein Grŵp Teams Iaith Gymraeg i atgoffa staff eu bod yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant uchod drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Recriwtio

Swyddi a Hysbysebwyd yn ystod 2025–2026

	2024- 2025 Rhif	2024- 2025 %	2025-2026 Rhif	2025-2026 %
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd	384	-	717	-
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a oedd â 'Sgiliau Iaith Gymraeg yn Hanfodol'	9	2.3%	28	3.9%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a oedd â 'Sgiliau Iaith Gymraeg yn Ddymunol'	375	97.7%	689	96.1%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a bennwyd fel swyddi lle mae'n 'angenrheidiol dysgu sgiliau iaith Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'	0	0	0	0
Nifer y swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd 'nad oedd angen sgiliau iaith Gymraeg'	0	0	0	0
Y nifer nad oeddent yn cynnwys asesiad	0	0	0	0
Y nifer heb ei nodi	0	0	0	0

	2024- 2025 Nifer	2024- 2025 %	2025-2026 Nifer	2025-2026 %
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd	299	-	202	-
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a oedd â 'Sgiliau Iaith Gymraeg yn Hanfodol'	15	5.0%	22	10.9%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a oedd â 'Sgiliau Iaith Gymraeg yn Ddymunol'	284	95.0%	180	89.1%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a bennwyd fel swyddi lle mae'n 'angenrheidiol dysgu sgiliau iaith Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'	0	0	0	0
Nifer y swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd 'nad oedd angen sgiliau iaith Gymraeg'	0	0	0	0
Y nifer nad oeddent yn cynnwys asesiad	0	0	0	0

Y nifer heb ei nodi	0	0	0	0
---------------------	---	---	---	---

Swyddi Ysgol a Hysbysebwyd yn ystod 2025–2026

Mae'r broses ymgeisio am swydd yn gwbl hygyrch yn y Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg, a hysbysebir pob swydd wag yn ddwyieithog. Yn unol â Safon 136, caiff pob swydd ei hasesu i benderfynu ar lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen, gyda phob rôl yn cael ei disgrifio fel o leiaf bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol.

Mae rolau sy'n cynnwys rhyngweithio cyhoeddus sylweddol, neu lle mae capasiti iaith Gymraeg cyfyngedig o fewn y gwasanaeth, wedi'u dynodi fel y mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol. Ar gyfer y swyddi hyn, anogir rheolwyr i nodi'n glir y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen, gan helpu i gefnogi ceisiadau gan ddysgwyr a allai fel arall fod yn brin o hyder i wneud cais.

Mae pob hysbyseb swydd yn cynnwys y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg, a defnyddir llwyfannau recriwtio iaith Gymraeg i hyrwyddo swyddi hanfodol a swyddi dymunol dethol, gan wella proffil ymhlith siaradwyr Cymraeg.

Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn adolygu hysbysebion swyddi yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yr iaith Gymraeg drwy gydol y broses recriwtio.

7. Gwasanaeth Cwsmeriaid

Galwadau Ffôn Iaith Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn adrodd, rheolwyd galwadau ffôn Cymraeg drwy'r Ganolfan Gyswllt. Yn dilyn cyflwyno system deleffoni newydd ym mis Mawrth 2025, mae galwadau Cymraeg bellach yn cael eu cyfeirio at gynghorydd sy'n siarad Cymraeg o fewn y Ganolfan Gyswllt. Lle nad oes cynghorydd sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, mae'r system yn dychwelyd i'r trefniant 'grŵp hela' blaenorol, gan gyfeirio galwadau at staff sy'n siarad Cymraeg ar draws yr awdurdod i sicrhau ymateb amserol.

Mae data o'r system deleffoni yn dangos bod cyfanswm o 189 o alwadau wedi'u derbyn drwy'r llinell iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, gyda dadansoddiad misol wedi'i ddarparu isod.:

Mis	Nifer y Galwadau Cymraeg a Gofnodwyd gan y System Deleffoni
Ebrill 25	36
Mai 25	20
Mehefin 25	15
Gorffennaf 25	18
Awst 25	14
Medi 25	13
Hydref 25	13
Tachwedd 25	17
Rhagfyr 25	10
Ionawr 26	9
Chwefror 26	14
Mawrth 26	10
Cyfanswm	189

Mae monitro â llaw yn dangos bod 57 o alwadau wedi'u derbyn lle gofynnodd cwsmeriaid am gael eu hymholiadau wedi'u trin yn y Gymraeg. Mae hyn yn fras gyson â blynyddoedd blaenorol, gyda 51 o alwadau wedi'u cofnodi yn 2022/23, 56 yn 2023/24, a 69 yn 2024/25. Mae'r ffigur uwch a gofnodwyd gan y system deleffoni yn adlewyrchu ei chyfyngiad presennol o ran nodi'r iaith y cynhaliwyd y rhyngweithio ynddi, tra bod cofnodion â llaw yn dal iaith y ddarpariaeth gwasanaeth yn fwy cywir.

Oherwydd y newid i'r system deleffoni newydd, ni chofnodwyd gwybodaeth fanwl am natur y galwadau a'r meysydd gwasanaeth dan sylw yn gyson yn ystod y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, mae adborth gan y Ganolfan Gyswllt yn awgrymu bod cyfran sylweddol o alwadau Cymraeg yn ymwneud â gwasanaethau Ailgylchu a Gwastraff.

Ers hynny, mae prosesau wedi'u cryfhau i sicrhau bod natur galwadau Cymraeg a'r meysydd gwasanaeth perthnasol yn cael eu cofnodi'n gyson yn y dyfodol. Bydd hyn yn cefnogi monitro gwell ac yn darparu dealltwriaeth gliriach o'r galw am wasanaethau Cymraeg mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Yn ogystal â gwasanaethau ffôn, mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cynnig digidol cwbl ddwyieithog drwy ap Fy Sir Fynwy, gan alluogi cwsmeriaid i wneud taliadau, rhoi gwybod am broblemau, a gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg.

8. Hyrwyddo

Awgrym Cymraeg

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddefnyddio'r nodwedd "Awgrym Cymraeg" yng nghylchlythyr staff Compass i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r iaith Gymraeg. Mae'r awgrymiadau dwyieithog hyn yn darparu canllawiau ymarferol ar Safonau penodol, gan helpu staff i ddeall eu cyfrifoldebau a sut i'w rhoi ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ofynion, mae'r Awgrymiadau Cymraeg hefyd yn cyfeirio staff at gymorth sydd ar gael, gan gynnwys cyfleoedd ac adnoddau dysgu'r iaith Gymraeg fel Iaith Gwaith. Defnyddiwyd y cylchlythyr hefyd i hyrwyddo ymgyrchoedd iaith Gymraeg ehangach, gan atgyfnerthu negeseuon allweddol ymhellach.

Mae'r dull hwn yn darparu dull cyfathrebu cyson a hygyrch, gan helpu i ymgorffori arferion da, cynyddu hyder, ac annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

Sianel Teams Cymraeg

Mae Sianel Teams Cymraeg yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y sefydliad. Mae'r sianel, sydd ar agor i bob aelod o staff, waeth beth fo'u gallu ieithyddol, yn darparu lle cefnogol a chynhwysol i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg ymgysylltu â'r iaith. Mae'r cynnwys a rennir ar y sianel yn ddwyieithog, gan annog cyfranogiad a sicrhau hygyrchedd. Defnyddir y plattfform i rannu adnoddau, hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi, a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau'r iaith Gymraeg, yn ogystal â meithrin ymdeimlad o gymuned ymhlith staff. Drwy greu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer rhyngweithio ac ymarfer anffurfiol, mae'r sianel yn cefnogi hyder cynyddol wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac yn helpu i ymgorffori'r iaith ym mywyd gwaith bob dydd.

Dydd Miwsig Cymru

Nododd y Cyngor Ddydd Miwsig Cymru drwy raglen hyrwyddo ymhlith staff gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Gymraeg ac annog ymgysylltiad â diwylliant Cymru. Rhannwyd cynnwys hyrwyddo ar draws sianeli cyfathrebu mewnol, gan gynnwys cylchlythyr y staff a Teams, gan amlygu artistiaid Cymreig a darparu dolenni i restrau chwarae ac adnoddau wedi'u curadu. Cynhyrchwyd fideo byr hefyd i roi blas i staff o'r ystod o gerddoriaeth Gymraeg sydd ar gael.

Cefnogodd y gweithgareddau hyn welededd y Gymraeg yn y gweithle ac anogodd staff i ymgysylltu â'r iaith mewn ffordd anffurfiol a hygyrch. Drwy gysylltu hyrwyddo diwylliannol â sianeli cyfathrebu bob dydd, cyfrannodd y fenter at normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac atgyfnerthu ei phresenoldeb ar draws y sefydliad.

Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi

Nododd y Cyngor Ddydd Gŵyl Dewi gyda digwyddiad a fynychwyd yn Neuadd y Sir, i ddathlu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Gwahoddwyd y gymuned i ymuno â'r dathliadau, a roddodd gyfle hefyd i gydnabod ymrwymiad a chyflawniadau staff sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda thystysgrifau'n cael eu cyflwyno i gydnabod eu hymdrechion. Roedd y digwyddiad yn cynnwys perfformiadau cerddorol, cyfraniadau gan ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol, ac anerchiadau gan uwch arweinwyr. Anogodd lluniaeth a gweithgareddau anffurfiol y mynychwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd hamddenol, gan helpu i feithrin hyder a hyrwyddo defnydd bob dydd o'r

iaith yn y gweithle. Cefnogwyd y digwyddiad trwy gyllid grant Cydlyniant Cymunedol, ochr yn ochr â chyfraniadau gan y tîm Gofal Cymdeithasol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhellach o fewn eu gwasanaethau.

9. Casgliad

Cyrsiau Iaith Gymraeg

Yn y flwyddyn adrodd 2025/26, cwblhaodd cyfanswm o 42 aelod o staff gwrs iaith Gymraeg. Mae hyn yn ostyngiad o 2024/25, pan gwblhaodd 53 o staff gwrs, ond mae'n parhau ychydig yn uwch na 2023/24, pan gymerodd 40 o staff ran. Er bod y gostyngiad hwn yn cael ei nodi, mae lefelau cyfranogiad yn parhau'n gryf ac yn parhau i ddangos ymgysylltiad cynaliadwy â dysgu'r iaith Gymraeg ar draws yr awdurdod.

Ar y cyfan, mae hyn yn adlewyrchu cynnydd sylweddol o'i gymharu â chymau cynnar y Strategaeth Iaith Gymraeg gyfredol (2022–2027), pan gwblhaodd 19 o staff gwrs yn 2021/22. Er nad yw'r rhesymau dros y gostyngiad yn gwbl glir, efallai bod hyrwyddo cyrsiau'n hwyrach eleni wedi bod yn ffactor cyfrannol, gan arwain at lai o amser i staff gofrestru cyn i leoedd gael eu llenwi.

Hyrwyddir cyrsiau iaith Gymraeg i staff drwy gydol y flwyddyn, gydag ymgyrch dargedig fel arfer yn dechrau ym mis Mehefin i gefnogi cofrestru ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ym mis Medi. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys tua dwy awr o ddysgu'r wythnos ac yn rhedeg dros gyfnod o 32 wythnos yn ystod y tymor. Gall staff gysylltu â'r Swyddog Iaith ar unrhyw adeg i drafod eu dysgu, rhoi adborth, neu godi unrhyw bryderon, gan alluogi ymgysylltiad parhaus a chyswllt agos â Dysgu Cymraeg Gwent.

